COFNODION CYFARFOD
O BWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI
7fed O EBRILL 2010 AM 7.00PM
SWYDDFA MENTER LLAMBED, LLANBEDR PS

YN BRESENNOL
CYNGOR TREF LLANBEDR PS: Cyng. Maer Selwyn Walters (Cadeirydd)
Cyng. Cecilia Barton, Cyng Chris Thomas a'r Cyng. Derek Wilson.

MUDIAD MYDTARA
Lizzie James
Sue Davies
Maureen Williams

YN GWEINYDDU
Eleri Thomas – Clerc Cyngor Tref Llambed

YN BRESENNOL HEFYD
Jill Burns Ray Ceredigion
Mr Tony Eames

1. CROESO'R CADEIRYDD
Croesawodd y Maer Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL
Cyng. Greg Evans, SCCH Ryan Jones a'r Cyng. Sirol Hag Harris.
Dymunwyd yn dda i Mrs Jan Harris sy'n yr ysbyty ers cyfnod byr.

3. DATGELU BUDDIANNAU PESONOL: Dim.

4. COFNODION CYFARFOD 17/02/2010
Cytunwyd i gofnodion y cyfarfod hwn fel cofnod cywir. Fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI

5.1 **Bu i'r Maer siarad â Lynda Fox,** Cydlynydd Cynllun Cymhorthdal yr Heddlu sy'n rhoi arian yn ôl i'r gymuned. Dylid cwblhau'r gwaith a chyflwyno anfonebau o fewn terfynau'r grant, erbyn diwedd Mai 2010.

5.2 **Torri'r gwair:** y mae 2 doriad ar ôl gan Mr Mike Brown – i ofyn iddo dorri'r darn gwair sy'n tyfu'r ochr allanol i'r ffens gan nad oes angen torri gwair bellach, ar y rhan o dir sydd wedi ei wastadu gan Mr Frank Sisto.

5.3 **Hau hadau ar y darn sydd wedi ei wastadu:** Y Maer i geisio gwybodaeth pellach gan Mr Sisto parthed y mater.

5.4 **Ffens:** Cytunodd y Cyng. Derek Wilsion i atgofio Mr Kevin Jones a Mr Emyr Jones, Teify Forge Cyf o'r angen i ymgymryd â'r gwaith cyn gynted â phosibl. **Ar ôl cwblhau'r gwaith yn ymwneud â'r ffens newydd**, caiff trefniadau eu gwneud i bolltio'r ddwy gât fawr.

5.5 **Adroddodd y Cyng Chris Thomas** iddo archebu 2 sedd holl-fetel gan Mr Alec Page £325 X 2 (heb TAW)

5.6 **Llwybrau Cerdded:** Bydd Mr Tony Eames yn cychwyn ar y gwaith at y 13eg o Ebrill. Dylai'r gwaith gael ei gwblhau o fewn wythnos. Gobeithir galw ar wasanaeth yr ieuenctid i gynnig cymorth fel gwirfoddolwyr. Y Cyng Chris

Thomas a Lizzie James i wneud ymholiadau ymysg yr ieuenctid Clwb Ieuenctid Llambed.

5.7 **Boed i'r Maer** dwyn sylw aelodau i'r gwarant.

EITEM	PRIS HEB TAW £	TAW £	CYFANSWM gan gynnwys TAW£
GÂT _ Cwmni Centrewire Sir Stafford	365.00	54.75	419.75
ARWYDD NEWYDD – gan gynnwys postyn. Contract Sign Systems- gwahardd cŵn ayyb	109.00	16.35	125.35
2 Arwydd newydd Contract Sign Systems- gwahardd cŵn ayyb	110.00	19.25	139.25
6 TORIAD GWAIR	800.00		800.00
Argraffu 400 o daflenni	36.00		36.00
Tocio Perthi Gwasanaethau Coed Llambed Cyf	350.00	52.50	402.50
Gwasanaethau Coed Llambed Cyf	480.00	84.00	564.00
Gwaddod: Mr Evans Llandysul	280.00	Heb fod yn berhnasol	280.00
Gwastadu'r Cae : Mr Frank Sisto	3,882.00	679.35	4,561.35
5 Bwrdd Picnic: Mr M Miller	600.00	105.00	705.00
CYFANSWM CYN BELLED GAN GYNNWYS TAW			£8,033.20
CYFANSWM CYN BELLED HEB GYNNWYS TAW			**£7,012**
Anfoneb Mr T Eames – llwybrau cerdded yn ddisgwyledig	1,925	Heb fod yn berthnasol	£1,925
Ffens – Teify Forge Cyf	6,840	1,197	£8,037
2 sedd fetel – A.Page	650.00	113.75	£763.75
Cyfanswm gan gynnwys TAW			£18,758.95
Cyfanswm heb TAW			**£16,427.00**

5.8 **Derbyniwyd cyflwyniad byr gan Jill Burns,** Mudiad Ray Ceredigion a ariennir gan y Loteri, yn ymwneud â chyflwyno gweithgareddau chwarae'n y cae. *I'w hystyried yn ystod y dyfodol.*

5.9 **Adroddodd y Maer iddo ysgrifennu at Gyngor Sir Ceredigion** i ofyn am estyniad i'r les.

5.10 **TRAC BAW:** Lizzie James i geisio gwybodaeth pellach erbyn y cyfarfod nesaf

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.40pm. Ni benderfynwyd ar ddyddiad y cyfarfod nesaf.